Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Gwneud y Senedd yn fwy cynrychiadol o boblogaeth Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 11 Medi 2023
Petitions Committee | 11 September 2023

**Cyfeirnod:** SR23/5997/1

Rhif y ddeiseb: P-06-1334

Teitl y ddeiseb: Gwneud y Senedd yn fwy cynrychiadol o boblogaeth Cymru

Geiriad y ddeiseb: Mae'r ddeiseb hon yn galw ar Senedd Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno Cwotâu ar sail Rhyw ac Ethnigrwydd yn ei systemau etholiadol ac mae'n galw am fwy o gynrychiolaeth i bobl o gefndir anabledd. At hynny, mae'n gofyn pa gamau y mae'r Senedd hon a'i phum rhagflaenydd wedi'u cymryd i sicrhau ei bod yn adlewyrchu Cymru gyfan yn well.

# 1. Y cefndir

Mae Adran 35 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan y canlynol:

> The Senedd must make appropriate arrangements with a view to securing that Senedd proceedings are conducted with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people.

Dywedodd Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd y Bumed Senedd, er bod y Senedd wedi "perfformio'n gymharol gryf" o ran cynrychiolaeth gytbwys rhwng y rhywiau, y bu "prinder amrywiaeth weladwy o ran ethnigrwydd ac anabledd".

Mae ffiniau cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o ran gweithredu mesurau i wella amrywiaeth yn gymhleth. Bydd y papur briffio hwn yn edrych ar gyfansoddiad rhyw ac ethnig presennol y Senedd, yn ogystal â chynlluniau diwygio yn y dyfodol.

## 1.1. Amrywiaeth rhywedd

Ers ei chreu, mae canran y menywod sy'n cael eu hethol i'r Senedd bob amser wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd byd-eang. Yn 2003, y Cynulliad Cenedlaethol, fel y'i gelwid ar y pryd, oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y byd i ethol nifer gyfartal o ddynion a menywod. Ers hynny, mae canran yr Aelodau sy'n fenywod wedi gostwng, er ei bod bob amser wedi bod yn uwch na 40 y cant.

## 1.2. Amrywiaeth ethnig

Yn etholiad y Senedd yn 2021, etholwyd tri Aelod o leiafrif ethnig. Dyma'r un nifer â'r etholiad yn 2016. Mohammad Asghar, a etholwyd yn 2007, oedd yr Aelod cyntaf o'r Senedd o gefndir lleiafrif ethnig.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr Aelodau o gefndir lleiafrif ethnig a etholwyd ym mhob un o etholiadau'r Senedd/Cynulliad. Mae hyn yn cyfeirio at y ffigurau a etholwyd, ac nid yw'n cynnwys newidiadau mewn Aelodaeth yn ystod tymor y Cynulliad/Senedd. Nid yw'n rhoi cyfrif am is-etholiadau.

| Etholiad | Aelodau o leiafrif ethnig | Canran |
|---|---|---|
| 1999 | 0 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| 2003 | 0 | 0% |
| 2007 | 1 | 1.6% |
| 2011 | 2 | 3.3% |
| 2016 | 3 | 5% |
| 2021 | 3 | 5% |

**Ffynonellau:** Ymchwil y Senedd, *Etholiad y Senedd yn 2021: Papur briffio*, Gorffennaf 2021; Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Briff Ymchwil Canlyniadau etholiad y Cynulliad yn 2016*, Mehefin 2016; Ymchwil y Senedd, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Canlyniadau Etholiad y Cynulliad 2011*, Mai 2011.

# 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y flwyddyn nesaf ym mis Mehefin. Roedd y rhaglen yn cynnwys dau Fil ar ddiwygio'r Senedd:

- Bil i ehangu maint y Senedd i 96 Aelod a gweithredu diwygiadau eraill;
- Bil ar wahân i gyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer ymgeiswyr i'w hethol i'r Senedd, "gyda'r nod o sicrhau bod [y Senedd] yn cynrychioli'r bobl y mae'n eu gwasanaethu'n well."

Disgwylir i'r ddau Fil gael eu cyflwyno ar ryw adeg yn nhymor yr hydref.

Ar ôl cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, y canlynol wrth y Senedd:

> Fe fyddwn ni'n cyflwyno Bil i gyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer ymgeiswyr a etholwyd i'r Senedd hon yng Nghymru.
>
> Rydym ni'n hyderus fod ganddom y cwmpas cyfreithiol yma yng Nghymru i ddeddfu yn y maes hwn, ac fe fyddwn ni'n cyflwyno Bil gyda ffydd yn y sail yr ydym ni'n gwneud hynny arni. Ond mae hwn yn faes lle gallai safbwyntiau eraill fod yn bosibl, a lle gellid wynebu her. I sicrhau nad yw'r prif ddiwygiadau yn agored i her, rydym ni wedi rhannu'r ddwy agwedd.

## 2.1. Y gronfa mynediad i swyddi etholedig

Ar 15 Chwefror 2021, agorodd cynllun peilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru i ymgeiswyr a oedd yn sefyll etholiad y Senedd ym mis Mai 2021.

Agorodd yr ail gam ym mis Hydref 2021, ac roedd wedi'i dargedu'n benodol i gefnogi ymgeiswyr anabl sy'n ceisio cael eu hetholiad yn yr etholiadau llywodraeth leol i'w cynnal ym mis Mai 2022. Cafodd y gronfa ei darparu gan Anabledd Cymru a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Gallai ymgeiswyr wneud cais am gymorth gyda'r costau ychwanegol i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â nam a fyddai'n effeithio ar gyfranogiad yn yr etholiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Adnoddau, offer a meddalwedd gynorthwyol;
- Teithio o amgylch yr etholaeth os na fydd yr ymgeisydd yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus;
- Gweithwyr cymorth cyfathrebu fel Iaith Arwyddion Prydain, dehonglwyr, palanteipyddion a siaradwyr gwefusau.

Cynhaliwyd adolygiad o'r cynllun peilot rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023.

Ar 16 Mai 2023, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu i sicrhau y bydd y gronfa ar gael ar gyfer etholiadau'r dyfodol.

# 3. Camau gan Senedd Cymru

Mae'r mater o gyflwyno cwotâu yn y Senedd wedi cael sylw gan bwyllgorau olynol.

## 3.1. Panel Arbenigol

Sefydlwyd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ym mis Chwefror 2017 i roi cyngor ar ddiwygio etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol, fel y'i gelwid ar y pryd. Roedd cwmpas y Panel yn cynnwys edrych ar amrywiaeth cynrychiolaeth yn seneddau'r dyfodol. Dadleuodd y dylai unrhyw system etholiadol yn y dyfodol "annog a chefnogi canlyniad lle yr etholir cynrychiolwyr sy'n adlewyrchu'r boblogaeth yn fras".

Argymhellodd y Panel Arbenigol fod cwotâu rhywedd yn cael eu cynnwys yn y systemau etholiadol a ddefnyddir gan y Cynulliad yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod bod cyfyngiadau sylweddol ar gymhwysedd y Cynulliad, fel y'i gelwid ar y pryd, i ddeddfu yn y maes hwn.

## 3.2. Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

Sefydlwyd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ym mis Medi 2019 i drafod argymhellion y Panel Arbenigol. Dywedodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd y canlynol:

> [Mae'r Pwyllgor] yn cefnogi'n gryf yr egwyddor y dylai'r Senedd fod yn gytbwys o ran rhywedd, ac y dylai ei haelodaeth fod yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd, anabledd a nodweddion gwarchodedig eraill.

Fodd bynnag, dywedodd hefyd ei fod wedi "derbyn cyngor cyfreithiol sy'n awgrymu y gallai cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth gael ei gyfyngu'n sylweddol."

Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru geisio diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i sicrhau y byddai mesurau i ethol Senedd fwy amrywiol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Argymhellodd hefyd y:

> Dylai pwyllgor yn y Chweched Senedd wneud rhagor o waith ar gwotâu amrywiaeth mewn perthynas â nodweddion heblaw rhywedd i lywio penderfyniadau ynghylch a fyddai cwotâu o'r fath yn ddulliau priodol o annog Senedd fwy amrywiol i gael ei hethol.

## 3.3. Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd

Sefydlwyd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ym mis Hydref 2021 gyda'r nod o wneud argymhellion ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r Senedd mewn pryd ar gyfer yr etholiad yn 2026.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Senedd gael ei hethol gyda chwotâu rhywedd statudol integredig. Argymhellodd hefyd fod:

> pwyllgor perthnasol yn ystyried sut y gellir gwneud rhagor o waith i ystyried rhinweddau a goblygiadau cwotâu amrywiaeth deddfwriaethol ar gyfer nodweddion ar wahân i rywedd.

Datganodd y Pwyllgor y:

> Daeth ein Pwyllgor i'r casgliad unfrydol y dylid datblygu cwotâu rhywedd integredig a rhestru 'am-yn-ail' gorfodol fel rhan o'r system rhestr newydd.

Datganodd ymhellach:

> Rydym yn cydnabod bod gallu deddfwriath i gyflawni'r argymhelliad hwn, fel gyda phob argymhelliad, yn ymwneud â ph'un a all gael ei gyflawni o fewn cyfyngiadau cymhwysedd y Senedd.

Mewn perthynas â holl gynigion y Pwyllgor ar amrywiaeth, datganodd yr adroddiad y:

> byddai'n rhaid i unrhyw Fil sy'n cyflwyno mesurau amrywiaeth gael ei ddrafftio mewn ffordd nad yw'n ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl, gan gynnwys y mater sy'n ymwneud â 'chyfle cyfartal'.
>
> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau priodol i sicrhau nad yw ein hargymhellion ar ddiwygio'r Senedd ar gyfer 2026 yn cael eu rhoi mewn perygl gormodol o atgyfeiriad i'r Goruchaf Lys.

Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion eraill hefyd ynghylch amrywiaeth yn y Senedd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Dylai gofyniad deddfwriaethol gael ei osod ar awdurdodau datganoledig yng Nghymru i gasglu a chyhoeddi data dienw ar amrywiaeth ymgeiswyr.
- Dylid cynnwys darpariaethau mewn Bil i ddiwygio'r Senedd sy'n annog pob plaid wleidyddol sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn etholiad Senedd i gyhoeddi strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant.

## 3.4. Dadl y Senedd ar gwotâu rhywedd

Yn y Senedd, mae'r Aelodau wedi trafod cwotâu rhywedd ac amrywiaeth yn y Senedd ar sawl achlysur, gan gynnwys mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar 27 Mehefin 2023.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.